

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad 2020

### Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r PSPO rheoli cŵn presennol wedi bodoli ers 20 Hydref 2017. Mae hynny wedi cael ei adolygu a chynhyrchwyd PSPO newydd arfaethedig ac ymgynghorwyd yn gyhoeddus arno rhwng 21/01/18 a 23/02/18. Mae manylion llawn am y PSPO hwnnw, yr ymgynghoriad a'r canlyniadau ar gael yn

<https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Environmental-problems/DogIssues/Dog-Control-Orders/Dog-Control-Public-Space-Protection-Order-Consultation.aspx>

Ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r sylwadau a dderbyniwyd, yn ogystal â sylwadau ychwanegol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Economi a Lle ar 05/02/20 a Chabinet y Cyngor ar 11/02/20.

PENDERFYNODD y Cabinet (gweler eitem 775) -

“Gymeradwyo'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO), yn ddarostyngedig i ymgynghoriad un mis arall ar y newidiadau a gynigir, gyda'r diwygiad canlynol:-

(I) Tynnu allan (t) (Clwb Golff Gogledd Cymru ac eithrio llwybrau cerdded sydyn croesi'r llwybr) o Atodlen 3 - Gwaharddiad Cŵn (Gwaharddiad Drwy'r Flwyddyn) a'i gynnwys yn Atodlen 5 - Cŵn ar Dennyndyn.”

Felly diwygiwyd y PSPO newydd arfaethedig er mwyn ymgorffori'r uchod gyda rhai newidiadau eraill yn cael eu hymgorffori, ar ôl ceisiadau gan Aelodau, fel y cytunwyd ar hynny gan y Deiliad Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, y Cynghorydd Charlie McCoubrey. Cynhyrchwyd PSPO newydd arfaethedig, a chynhaliwyd ail ymgynghoriad statudol a chyhoeddus, rhwng 01/07/20 a 28/07/20 ar y newidiadau, diwygiadau ac ychwanegiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Drafft Newydd gwreiddiol yn unig.

### Ymgynghoriad

Rhwng 01/7/20 a 28/07/20 ymgynghorodd y Cyngor yn gyhoeddus dim ond ar y newidiadau, diwygiadau ac ychwanegiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Drafft Newydd gwreiddiol yn unig oedd yn ei dro yn creu'r PSPO newydd arfaethedig

Er mwyn sicrhau ymgynghoriad teg a helaeth, rhoddwyd hysbysiadau yn yr holl leoliadau yr effeithir arnynt. Postiwyd manylion ar wefan y cyngor ac ar y cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ogystal a'i hysbysebu yn y wasg ac ar y byrddau gwybodaeth ddigidol corfforaethol. Anfonwyd yn uniongyrchol at ymgynghoreion statudol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau perthnasol eraill, er mwyn cynghori a gwahodd ymgysylltu/sylwadau.

### Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 153 o ymatebion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, Mae **Atodiad 1** yn rhoi'r canlyniadau mewn dadansoddiad llawn.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad a'r sylwadau a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried, ac maent fel a ganlyn:

### **ATODIAD 3 - GWAHARDD CŴN (GWAHARDDIAD DRWY GYDOL Y FLWYDDYN)**

## **2(K) Cae Chwarae Top Llan, Glan Conwy**

Yn dilyn pleidlais leol gyhoeddus, gofynnodd Cyngor Cymuned Glan Conwy i'r ardal yma gael ei thynnu o'r rhestr o leoliadau y cynigiwyd iddynt gael gwaharddiadau cŵn drwy gydol y flwyddyn. Y rhesymau a roddwyd oedd er mwyn sicrhau bod o leiaf 1 o'r 2 o fannau agored gwyrdd yng Nglan Conwy ar gael ar gyfer defnydd cyfrifol gan berchnogion cŵn.

Cafodd tynnu'r ardal yma o'r PSPO newydd arfaethedig ei gefnogi gan 53% o'r ymatebwyr.

Felly cynigir nad yw'r ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **2(K) Cae Chwarae Ffordd Llanrwst, Glan Conwy**

Gofynnodd Cyngor Cymuned Glan Conwy bod y lleoliad yma n cael ei gynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn barhaol oherwydd bu nifer o gwynion mewn perthynas â baw cŵn ar y cae chwarae. Mae ardal chwarae i blant wedi ei leoli yno hefyd, er ei fod wedi ei ffensiio. Er codi arwyddion, mae baw cŵn yn dal yn broblem.

Ond ni chefnogwyd cynnwys yr ardal yma yn PSPO newydd arfaethedig ei gefnogi an 50% o'r ymatebwyr. Felly cynigir nad yw'r ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **2(P) Cae Cymuned Llanelian, Llanelian**

Mae Cyngor Cymuned Llanelian wedi gofyn am i'r lleoliad yma gae ei gynnwys fel ardal gwahardd cŵn oherwydd problem baw cŵn barhaus. Mae gwaith addysgol a hyrwyddo wedi cael ei wneud er mwyn amcanu at sicrhau perchnogaeth gyfrifol ar gŵn gan y Cyngor Cymuned a swyddogion y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, ond roed baw cŵn yn dal yn broblem.

Ond ni chefnogwyd cynnwys y lleoliad yma yn y PSPO newydd arfaethedig, a chyflwynwyd dwy ddeiseb yn gwrthwynebu'r mesur rheoli yma ac roedd 56% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn ei gefnogi. Felly cynigir nad yw'r ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **4(N) Pwll Padlo Cymunedol Llandudno / Craig y Don**

Ar y cychwyn cynigwyd y byddai gwaharddiad cŵn yn cael ei gymhwyso i'r ardal yma, ond yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf mynegodd perchnogion cŵn bryder na fyddent wedyn yn gallu cael mynediad i'r toiledau cyhoeddus na defnyddio'r cafffi sydd yno petai cŵn yn cael eu gwahardd yn barhaol. Teimlwyd bod angen rhyw fath o reolaeth ar gŵn yn y lleoliad oherwydd y niferoedd mawr o bobl a ddisgwyliwyd a nifer y plant sydd yn chwarae yno. Felly cynigwyd bod yr ardal yn cael ei gynnwys fel ardal cŵn ar dennyn.

Cefnogwyd cynnwys y lleoliad yma fel ardal cŵn ar dennyn gan 60% o'r ymatebwyr. Felly cynigir bod yr ardal yn cael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **2(T) Traeth Bae Colwyn - ardal y traeth rhwng y llinell dŵr isel a wal y promenâd rhwng pwynt agosaf i'r môr pentir Porth Eirias ac ochr ddwyreiniol linell pier Bae Colwyn**

Mae gwaith adnewyddu sylweddol wedi cael ei wneud ar hyd Bae Colwyn a llawer o wariant wedi cael ei wneud er mwyn creu y traeth newydd ym Mhorth Eirias.

Mae'r rhan o'r traeth newydd i'r dwyrain o'r pier yn draeth sych sydd yn golygu na dyw'n cael ei olchi gan y llanw, felly bydd unrhyw wastraff a adewir yno gan anifeiliaid neu bobl nes ei fod yn cael ei dynnu oddi yno gan y Cyngor.

Dim ond 15% o'r ymatebwyr gefnogodd y cynnig yma, gyda 19% ddim yn ateb u cwestiwn a 66% yn gwrthwynebu'r cynnig, a'r rhan fwyaf ohonynt yn berchnogion cŵn.

Wrth ystyried canlyniadau'r ymateb ar gyfer y lleoliad yma, ac er y nodwyd hynny, ystyrir ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur cydbwysu anghenion rhai sydd ac sydd ddim yn berchnogion cŵn yn y lleoliad yma, a galluogi a sicrhau bod pa cael elwa o fuddion amwynderau traeth Bae Colwyn.

Felly cynigir bod ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn barhaol yn y PSPO newydd arfaethedig am y rhesymau canlynol;

- Mae'r traeth yn draeth sych na olchir gan y llanw
- Mae'r rhan o'r traeth a gynigir yn sylweddol llai na'r parth gwahardd blaenorol sydd yn bodoli ers cyflwyno is-ddeddfau tua 25 mlynedd yn ôl
- Mae'r Cyngor wedi derbyn 10 o gwynion gan aelodau'r cyhoedd nad oedd yn gallu cael mynediad i'r traeth gyda'u teuluoedd oherwydd presenoldeb cŵn yn ystod Gorffennaf ac Awst 2020 yn unig.
- Er mwyn gwrthbwysu'r parth gwaharddiad parhaol arfaethedig yn y rhan fechan yma o Borth Eirias, mae'r Cyngor wedi gwaredu'r parth gwaharddiad tymhorol blaenorol yn Llandrillo-yn-Rhos gyferbyn â Phromenâd Cayley, gan adael y traeth eang o ochr orllewinol pier Bae Colwyn hyd at draeth sych Llandrillo-yn-Rhos yn rhydd i berchnogion cŵn ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn.
- Mae yna draeth sych yn Llandrillo-yn-Rhos sydd yn destun gwaharddiad parhaol i gŵn oherwydd nad yw'n cael ei olchi gan y llanw.

## **2(V) Cae Cymuned Minafon, Hen Golwyn**

Arferai'r man gwyrdd agored yma gael ei ddefnyddio ar gyfer mynd â chŵn am dro ac roedd yn ardal y derbyniwyd llawer o gwynio mewn amdani mewn perthynas â chŵn afreolus a baw cŵn, oedd yn cyfyngu ar y defnydd effeithiol a wneir ohono gan y gymuned gyfan. Mae'n ffinio ag Ysgol T Gwynn Jones ac roed y broblem wedi dod mor ddrwg fel y bu i blant yr ysgol ddylunio eu poster i eu hunain a drowyd yn arwyddion, ac fe'u codwyd o gwmpas y lleoliad mewn ymdrech i annog perchnogaeth gyfrifol ar gŵn. Erbyn hyn mae ERF wedi trosi'r cyn fan gwyrdd agored yma yn barc teulu gyfeillgar ac yn ardal antur i blant, gyda meinciau eistedd, meinciau picnic a llwyni o beillyddion o flodau gwyllt. Mae'r safle yn ffini â'r ysgol ac fe'i defnyddir gan blant yn ystod y tymor. Yn seiliedig ar hynny ac oherwydd yr hanes blaenorol o berchnogaeth anghyfrifol ar gŵn yn yr ardal, derbyniwyd cais gan ERF i sefydlu gwaharddiad cŵn drwy gydol y flwyddyn, fel y gellir defnyddio a mwynhau y parc yn effeithiol heb broblem cŵn afreolus a baw cŵn.

Dim ond 22% o'r ymatebwyr gefnogodd y cynnig yma, gyda 27% ddim yn ateb u cwestiwn a 51% yn gwrthwynebu'r cynnig, a'r rhan fwyaf ohonynt yn berchnogion cŵn.

Wrth ystyried canlyniadau'r ymateb ar gyfer y lleoliad yma, ac er y nodwyd hynny, ystyrir ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur cydbwysu anghenion rhai sydd ac sydd ddim yn

berchnogion cŵn yn y lleoliad yma, a galluogi a sicrhau bod buddion yr amwynderau newydd yn cael eu gwireddu ar gyfer y diben a fwriadwyd.

Felly cynigir bod ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn barhaol yn y PSPO newydd arfaethedig am y rhesymau canlynol;

- Mae'r cais wedi cael ei wneud gan ERF, yr adran yn y Cyngor sydd yn gyfrifol am lanhau strydoedd, ac yn benodol glanhau baw cŵn yn rheolaidd yn y lleoliad yma yn ystod blynyddoedd blaenorol.
- Ar ôl i ERF droi yr ardal yma yn barc teulu gyfeillgar ac yn ofod antur gyda gwarchodfa natur, erbyn hyn mae'r ardal yn cael ei defnyddio gan ddisgyblion yr ysgol leol at ddibenion addysgol. Mae hynny yn gosod yleoliad yn Atodlen 3 y PSPO newydd arfaethedig fel yn achos yr holl PSPO blaenorol a drafft. Mae Atodlen 3 rhan 1(f) yn nodi y dylai cŵn gael eu gwahardd yn barhaol o'r holl gaeau hamdden sydd yn gysylltiedig â sefydliadau addysg.

## **2(W) Ardal Coetir/Bioamrywiaeth Llandrillo-yn-Rhos arfaethedig, Heol Brookfield, Llandrillo-yn-Rhos**

Cynigir creu ardal goediog newydd yn yr ardal a ddisgrifir uchod. Er mwyn i fuddion yr ardal newydd yma gael eu gwireddu yn llawn, roedd aelod lleol wedi cynnig y dylai cŵn gael eu gwahardd yn barhaol.

Ond ni chefnogwyd cynnwys y lleoliad yma yn y PSPO newydd arfaethedig, ac roedd 57% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn ei gefnogi. Felly cynigir nad yw'r ardal yma yn cael ei chynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohoni yn barhaol yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **ATODIAD 4 - GWAHARDD CŴN (GWAHARDDIAD TYMHOROL)**

### **1(a) Bae Cinmel - yr rhan o'r traeth rhwng y llinell trai a'r promenâd rhwng y fynedfa i'r traeth o'r maes parcio, Heol Llanelwy, Bae Cinmel A'r fynedfa gyntaf i'r traeth o'r promenâd ger Heol Woodside, Bae Cinmel**

Dyweddodd Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel y byddent eisïau i'r gwaharddiad cŵn tymhorol yn cael ei ddiddymu o'r rhan o'r traeth a ddisgrifir yn y PSPO newydd arfaethedig gwreiddiol yr ymgynghorwyd arno, fel na fyddai unrhyw waharddiad tymhorol nag unrhyw waharddiad cŵn arall yn bodoli yn y lleoliad hwnnw.

Byddai effaith hynny yn golygu na fyddai'n bosibl i'r rhan honno barhau i gael Gwobr Traeth Baner Las.

Mae'r canlyniadau yn dangos bod 38% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yma, ond ni fu i 32% o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Ymatebodd y M.S. lleol gyda gwrthwynebiad cryf i'r diddymiad arfaethedig gan nodi

“Rwyf yn credu bod caffael baner las yn bwysicach na chaniatáu i bobl fynd â'u cŵn am dro ar y traeth yn Nhowyn a Bae Cinmel. Nid wyf wedi derbyn unrhyw wrthwynebiadau i'r gwaharddiadau tymhorol presennol gan drigolion lleol”.

Felly cynigir y lleoliad yma yn cael ei gynnwys fel ardal y gwaherddir cŵn ohono yn dymhorol yn y PSPO newydd arfaethedig.

### **3(d) Penmaenmawr - ardal y traeth rhwng y llinell trai a'r promenâd o ochr ddwyreiniol y caffi sydd wedi ei leoli ar y promenâd a'r lanfa sydd yn gysylltiedig â'r clwb hwylio.**

Yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf dywedodd Cyngor Tref Penmaenmawr eu bod eisiau i'r gwaharddiad cŵn tymhorol sydd yn bodoli i barhau yn yr un lleoliad ag y mae wedi bodoli ers 2012 yn hytrach nag ail-leoli o'r faeth a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf.

Felly, roedd geiriad diwygiedig y lleoliad yn destun yr ymgynghoriad yn hytrach na'r gwaharddiad tymhorol ei hun a barhaodd i gael ei gefnogi yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf.

O blith yr ymatebwyr, roedd 27% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 34% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 39% y cwestiwn yma.

Wrth ystyried y canlyniadau ymateb ar gyfer y lleoliad yma, ac er y nodwyd hynny, tybir bod angen cofio yr ymgynghorydd ar hyn fel mân ddiwygiad i eiriad ar gyfer y lleoliad fel y gofynnwyd am hynny gan y Cyngor Tref, fyddai'n golygu y byddai'r ardal gwahardd cŵn tymhorol yn parhau fel ag yr oedd.

Felly cynigir Ardal yma yn cael ei gynnwys fel lleoliad y gwaherddir cŵn ohono yn dymhorol yn y PSPO newydd arfaethedig.

### **3(e) Llanfairfechan - ardal y traeth sydd yn ymestyn rhwng y llinell trai a'r promenâd rhwng y brif lanfa a cheg yr afon (ond nid yn cynnwys y lanfa).**

Yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf dywedodd Cyngor Tref Llanfairfechan eu bod eisiau i'r gwaharddiad cŵn tymhorol sydd yn bodoli i barhau yn yr un lleoliad ag y mae wedi bodoli ers 2012 yn hytrach nag ail-leoli o'r faeth a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf.

Felly, roedd geiriad diwygiedig y lleoliad yn destun yr ymgynghoriad yn hytrach na'r gwaharddiad tymhorol ei hun a barhaodd i gael ei gefnogi yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf.

O blith yr ymatebwyr, roedd 27% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 32% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 41% y cwestiwn yma.

Wrth ystyried y canlyniadau ymateb ar gyfer y lleoliad yma, ac er y nodwyd hynny, tybir bod angen cofio yr ymgynghorydd ar hyn fel mân ddiwygiad i eiriad ar gyfer y lleoliad fel y gofynnwyd am hynny gan y Cyngor Tref, fyddai'n golygu y byddai'r ardal gwahardd cŵn tymhorol yn parhau fel ag yr oedd, oherwydd bod y lleoliad gwreiddiol yn fwy buddiol ar gyfer mynediad anabl i'r traeth.

Felly cynigir Ardal yma yn cael ei gynnwys fel lleoliad y gwaherddir cŵn ohono yn dymhorol fel y caiff hynny ei eirio yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **ATODLEN 5 - CŴN AR DENNYN**

### **4(d) Cae Chwarae Heol y Drindod Llandudno; ac eithrio'r ardal (a ddiffiniwyd) a bennwyd ar gyfer mynd â chŵn am dro.**

Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd a sylwadau gan Aelodau Lleol nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn y lleoliad yma a bod baw cŵn yn broblem.

Mae gwaith addysgol a hyrwyddo wedi cael ei wneud er mwyn amcanu at sicrhau perchnogaeth gyfrifol ar gŵn gan Aelodau Lleol a swyddogion y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, ond mae'r broblem honno yn dal i fodoli yn yr ardal honno.

O ganlyniad, gofynnodd aelod lleol i'r ardal honno gael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn ac eithrio ardal ddiffiniedig sydd wedi ei phennu ar gyfer cŵn.

O blith yr ymatebwyr, roedd 49% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 23% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 28% y cwestiwn yma.

Felly cynigir bod yr ardal yn cael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn, ac eithrio yr ardal ddiffiniedig a ddynodir ar gyfer cŵn, yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **4(e) Cae Chwarae Owain Glyndŵr, Bae Cinmel; ac eithrio'r ardal (ddiffiniedig) a bennwyd ar gyfer mynd â chŵn am dro**

Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd a sylwadau gan Gyngor Tref Towyn a Bae Cinmel nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn y lleoliad yma a bod baw cŵn yn broblem.

Mae gwaith addysgol a hyrwyddo wedi cael ei wneud er mwyn amcanu at sicrhau perchnogaeth gyfrifol ar gŵn gan y Cyngor Tref a swyddogion y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, ond mae'r broblem honno yn dal i fodoli yn yr ardal honno.

O ganlyniad, gofynnodd Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel i'r ardal honno gael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn ac eithrio ardal ddiffiniedig sydd wedi ei phennu ar gyfer cŵn.

O blith yr ymatebwyr, roedd 41% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 24% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 35% y cwestiwn yma.

Felly cynigir bod yr ardal yn cael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn, ac eithrio yr ardal ddiffiniedig a ddynodir ar gyfer cŵn, yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **4(u) Llwybrau cyhoeddus sydd yn croesi Clwb Golff Gogledd Cymru, Llandudno**

Mae Clwb Golff Gogledd Cymru, sydd yn berchen ar eu tir ac sydd ar hyn o bryd yn destun gofyniad PSPO cŵn ar dennyn, wedi gofyn i'r tir gael ei gynnwys fel ardal gwahardd cŵn yn barhaol oherwydd problemau rheoli cŵn parhaus, cwynion am faw ac er mwyn lles a diogelwch rhai sydd yn mynd â chŵn am dro ac aelodau fel ei gilydd.

Cafodd y gwaharddiad ar gŵn ar y tir sydd ei eiddo i'r clwb ei gefnogi yn yr ymgynghoriad cyntaf, ond o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd a phenderfyniad Cabinet 775, penderfynwyd na ellid gwahardd cŵn oddi ar y llwybrau cyhoeddus sydd yn croesi tir y clwb.

Oherwydd hynny, cynigwyd bod llwybrau cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y PSPO newydd arfaethedig fel lleoliad cŵn ar dennyn.

O blith yr ymatebwyr, roedd 40% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 32% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 28% y cwestiwn yma.

Felly cynigir bod y llwybrau cyhoeddus yn cael eu cynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **4(Q) Tir Hamdden Llanfairfechan a Thir sydd yn amgylchynu'r Lllyn Cychod hyd at gychwyn y llwybr ceffylau, Llanfairfechan**

Nid oedd Cyngor Tref Llanfairfechan yn cefnogi'r lleoliad a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf. Er eglurder, bu iddynt ofyn yn hytrach i'r ardal cŵn ar dennyn beidio gael ei ymestyn fel y cynigwyd yn wreiddiol hyd at Ffin Orllewinol yr eiddo a elwir yn "Kingswood". Yn hytrach, gofynnwyd ganddynt bod y ffin yn stopio ar ddechrau'r Llwybr Ceffylau.

Felly, roedd y ffin ddiwygiedig ar gyfer y lleoliad yn destun yr ymgynghoriad yn hytrach na'r mesur rheoli ei hun y dylai cŵn fod ar dennyn a barhaodd i gael ei gefnogi yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf.

O blith yr ymatebwyr, roedd 30% yn cefnogi'r cynnig yma, ac roedd 34% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ni atebodd 36% y cwestiwn yma. Nodwyd bod un aelod lleol wedi gwrthwynebu'r cynnig yn gadarn.

Yn seiliedig ar ganlyniadau yr ymgynghoriad cyntaf a'r ail ymgynghoriad gyda'r ffiniau arfaethedig yn y naill achos na'r llall yn cael eu cefnogi, cynigir y dylai ffin y lleoliad gael ei adfer i'r hyn yr oedd yn flaenorol yn 2012, sef ffin orllewinol yr eiddo o'r enw Gorsefield, gael ei gynnwys fel man lle dylai cŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **2(t) Y llwybr cyhoeddus rhwng Ffordd Glan yr Afon a Ffordd Hen Felin Dwygyfylchi**

Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd a sylwadau gan Aelodau a Lleol nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth ar y llwybr yma a bod baw cŵn yn broblem hefyd.

Felly yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf cynigwyd y dylai'r llwybr gael ei gynnwys fel lleoliad ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn. Ni chafodd y cynnig yma ei gefnogi gan yr aelod lleol a ofynnodd am i'r gofyniad i gŵn fod ar dennyn gael ei dynnu o'r gorchymyn drafft newydd arfaethedig.

Felly roedd diddymu'r lleoliad yma fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn destun yr ymgynghoriad ac fe'i cefnogwyd gan 45% o'r ymatebwyr.

Felly cynigir bod y llwybr rhwng Ffordd Glan yr Afon a Ffordd Hen Felin Dwygyfylchi yn cael eu cynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y newydd arfaethedig.

## **2(u) Y llwybr cyhoeddus rhwng Hen Ffordd Conwy a Ffordd Hen Felin , Dwygyfylchi**

Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd a sylwadau gan Aelodau a Lleol nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth ar y llwybr yma a bod baw cŵn yn broblem hefyd.

Felly yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf cynigwyd y dylai'r llwybr gael ei gynnwys fel lleoliad ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn. Ni chafodd y cynnig yma ei gefnogi gan yr aelod lleol a ofynnodd am i'r gofyniad i gŵn fod ar dennyn gael ei dynnu o'r gorchymyn drafft newydd arfaethedig.

Felly roedd diddymu'r lleoliad yma fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn destun yr ymgynghoriad ac fe'i cefnogwyd gan 49% o'r ymatebwyr.

Felly cynigir nad yw y llwybr rhwng Hen Ffordd Conwy a Ffordd Hen Felin Dwygyfylchi yn cael eu cynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

## **2(v) Y llwybr o Ffordd Ysguborwen i'r garej sydd yn ffinio â'r A55/Maes Y Llan, Dwygyfylchi**

Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd a sylwadau gan Aelodau a Lleol nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth ar y llwybr yma a bod baw cŵn yn broblem hefyd.

Felly yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf cynigwyd y dylai'r llwybr gael ei gynnwys fel lleoliad ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn. Ni chafodd y cynnig yma ei gefnogi gan yr aelod lleol a ofynnodd am i'r gofyniad i gŵn fod ar dennyn gael ei dynnu o'r gorchymyn drafft newydd arfaethedig.

Felly roedd diddymu'r lleoliad yma fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn destun yr ymgynghoriad ac fe'i cefnogwyd gan 47% o'r ymatebwyr.

Felly cynigir nad yw y llwybr o Ffordd Ysguborwen i'r garej sydd yn ffinio â'r A55/Maes y Llan, Dwygyfylchi yn cael ei gynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **4(W) Gerddi'r Frenhines, Bae Colwyn**

Ar ôl derbyn sylwadau, gofynnodd Cyngor Tref Cae Colwyn am i'r ardal uchod gael ei chynnwys fel ardal cŵn ar dennyn. Daeth y cais yma yn dilyn ymosodiad milain gan gi ar gi tywys gan gi afreolus oedd oddi ar ei dennyn.

Cefnogwyd y cynnig yma gan 46% o'r ymatebwyr, gyda 28% yn gwrthwynebu a 26% ddim yn ateb y cwestiwn.

Felly cynigir bod Gerddi'r Frenhines yn cael eu cynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **4(V) Llwybr troed arfaethedig o amgylch Coetir/ardal Bioamrywiaeth Llandrillo-yn-Rhos, Heol Brookfield, Llandrillo-yn-Rhos**

Cynigir creu ardal goediog newydd yn yr ardal a ddisgrifir uchod gyda llwybr troed yn amgylchynu'r ardal coetir/bioamrywiaeth. Er mwyn i fuddion yr ardal newydd yma gael eu gwireddu yn llawn, roedd aelod lleol wedi cynnig y dylai cŵn fod ar dennyn ar y llwybr yma.

Ond ni chefnogwyd cynnwys y lleoliad yma fel ardal cŵn ar dennyn yn y PSPO Drafft Newydd Diwygiedig, ac roedd 40% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn ei gefnogi.

Felly cynigir nad yw yr ardal yn cael ei chynnwys fel ardal ble mae'n rhaid i gŵn fod ar dennyn yn y PSPO newydd arfaethedig.

#### **Camau Nesaf**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle  
Dydd Llun 12 Hydref 2020 5.30 pm

<https://modgovcym.conwy.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=939>

Y Cabinet  
Dydd Mawrth 13 Hydref 2020 2.00pm

<https://modgovcym.conwy.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=171>